WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2018 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 1047A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol gan Mike Usher, Dave Thomas, Amanda Hughes ac Andrew Doughton.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 7

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18 ond, wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio 7

Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ac wedi gosod adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn i nodi ei fod wedi methu â chyflawni ei dyletswyddau ariannol statudol 8

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 9

Er bod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau llywodraethu a rheoli, mae'n dal i'w chael hi'n anodd datblygu cynlluniau tymor canolig sy'n gynaliadwy yn ariannol a gwella meysydd perfformiad â blaenoriaeth 10

Er bod trefniadau cynllunio strategol yn datblygu, nid ydynt wedi arwain at Gynllun Tymor Canolig Integredig y gellir ei gymeradwyo ac nid yw dull y Bwrdd Iechyd o fonitro darpariaeth ei gynlluniau presennol wedi bod yn ddigon cryf 12

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran rheoli ei weithlu, ei gyllid a'i asedau ffisegol, ac mae angen iddo ddatblygu dull mwy trawsnewidiol i wella perfformiad ac effeithlonrwydd y gwasanaeth 13

Mae fy rhaglen waith ehangach yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn ymateb i risgiau a chyfleoedd, ond ei fod yn dal i wynebu sawl her 15

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau 16

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 17

Atodiad 2 – ffi archwilio 18

Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol 19

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2018. Ymgymerais â'r gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

2 Rwyf wedi adrodd fy nghanfyddiadau o dan y penawdau canlynol:

- Negeseuon allweddol
- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

3 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

4 Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2018.

5 Mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2018 a sut yr aed i'r afael â nhw yn ystod yr archwiliad.

6 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ar 14 Mawrth 2019. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol a bydd pob aelod yn cael copi ohono. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

7 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod y gwaith archwilio mae fy nhîm wedi ei gyflawni dros y 12 mis diwethaf.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

8 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn sylweddol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon. Felly, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar eu paratoad.

9 Fodd bynnag, wrth gyhoeddi'r farn ddiamod hon, rwyf wedi dwyn rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r rhain yn ymwneud ag ailbrisio asedau sefydlog a rhai materion a nododd anghysondebau mewn perthynas â thriniaeth gyfrifyddu a phryderon yn ymwneud â chywirdeb croniadau incwm a gwariant.

10 Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18.

11 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, rhoddais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i nodi ei fod wedi methu â mantoli'r gyllideb ac wedi methu â sicrhau bod cynllun tair blynedd cymeradwy ar waith.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

12 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig 2018 yn y Bwrdd Iechyd wedi dod i'r casgliad:

- Er bod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau llywodraethu a rheoli, gwelwyd ei fod yn dal i'w chael hi'n anodd datblygu cynlluniau tymor canolig sy'n gynaliadwy yn ariannol a gwella meysydd perfformiad â blaenoriaeth.
- Er bod trefniadau cynllunio strategol yn datblygu, nid ydynt wedi arwain at Gynllun Tymor Canolig Integredig y gellir ei gymeradwyo ac nid yw dull y Bwrdd Iechyd o fonitro darpariaeth ei gynlluniau presennol wedi bod yn ddigon cryf.
- Bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran rheoli ei weithlu, ei gyllid a'i asedau ffisegol, a bod angen iddo ddatblygu dull mwy trawsnewidiol i wella perfformiad ac effeithlonrwydd y gwasanaeth.

13 Mae fy rhaglen waith ehangach yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn ymateb i risgiau a chyfleoedd, ond ei fod yn dal i wynebu sawl her:

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd rhesymol o ran darparu ei gynlluniau a ddatblygwyd yn ddiweddar ar gyfer gofal sylfaenol, ond mae sawl agwedd ar berfformiad yn dal i fod yn waeth na'r cyfartaledd ac mae sawl her sylweddol yn ymwneud â'r gweithlu ac arian yn bodoli o hyd.
- Mae fy nghanfyddiadau mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Integredig yn dangos rhai heriau.

14 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol ac wedi gwneud defnydd da o'r data a ryddhawyd yn 2017.

15 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

16 Yn ystod y flwyddyn, adroddais hefyd ar wasanaethau cleifion allanol dilynol, gwasanaethau radioleg a Gwasanaethau Gwybodeg y GIG ar lefel Cymru gyfan. Cyflwynodd fy nhîm ymgysylltu yr adroddiadau hyn i'r pwyllgor archwilio, gan nodi elfennau cenedlaethol a lleol arfer da ac unrhyw feysydd i'w gwella. Mae unrhyw argymhellion a wneir yn fy adroddiadau cenedlaethol ac sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd lleol yn cael eu mabwysiadu'n rheolaidd gan system olrhain argymhellion y Bwrdd Iechyd.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

17 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

18 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â nhw; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.

19 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

### Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18 ond, wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio

20 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon. Felly, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar eu paratoad.

21 Roedd y datganiadau ariannol drafft ar gael i mi erbyn y dyddiad cau ar 27 Ebrill 2018 a oedd yn gyflawniad sylweddol gan y tîm Cyllid, yn enwedig o ystyried bod aelodau allweddol o'r tîm wedi gadael y Bwrdd Iechyd yn ystod cyfnod paratoi'r cyfrifon.

22 Adolygais y rheolaethau mewnol hynny a oedd yn berthnasol i'r archwiliad yn fy marn i er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risg o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Ni chawsant eu hystyried gennyf at ddibenion mynegi barn ar eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

23 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 31 Mai 2018. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi a rhoi sylwadau ar y materion allweddol a nodwyd.

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y datganiadau ariannol. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Roedd amryw o gamddatganiadau wedi'u cywiro a nodwyd yn Atodiad 4 o'm hadroddiad. |
| Materion sylweddol eraill | Roedd rhai pryderon ynghylch agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu'r Bwrdd Iechyd:<br>• nid oedd trafodion yn adlewyrchu'r broses o ailbrisio asedau sefydlog wedi'u cyfrif na'u datgelu'n gywir yn Nodyn 11.1 (Eiddo, Peiriannau ac Offer) i'r cyfrifon; a<br>• nodwyd amryw o faterion a nododd anghysondebau mewn perthynas â thriniaeth gyfrifyddu a phryderon yn ymwneud â chywirdeb croniadau incwm a gwariant. |

24 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais adolygiad o'r ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad fod y wybodaeth gyfunol gyfatebol yn cyd-fynd â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2018 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

25 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol a gedwir mewn ymddiriedolaeth wedi'i gwblhau, a chyhoeddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol ym mis Ionawr 2019. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'm gwaith archwilio.

## Rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ac wedi gosod adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn i nodi ei fod wedi methu â chyflawni ei dyletswyddau ariannol statudol

26 Rhaid i drafodion ariannol y Bwrdd Iechyd gyd-fynd â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rhaid bod ganddo'r pwerau i dderbyn yr incwm a gwneud y gwariant sydd ganddo. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw

elfennau incwm neu wariant perthnasol nad oes gan y Bwrdd Iechyd yr hawl i'w derbyn neu eu gwneud.

27 Lle nad yw Bwrdd Iechyd yn llwyddo i fantoli'r gyllideb, mae ei wariant yn uwch na'i bwerau i wario, felly mae'n rhaid i mi gyhoeddi barn amodol. Gan na lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, cyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn ei gyfrifon ar gyfer 2017-18. Torrodd y Bwrdd Iechyd ei derfyn adnoddau refeniw trwy wario £88.147 miliwn yn fwy na'r £4,163 yr awdurdodwyd iddo wario yn y cyfnod tair blynedd o 2015-16 tan 2017-18.

28 Mae gennyf y pŵer i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn lle rwyf eisiau tynnu sylw at faterion. Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â mantoli'r gyllideb, rhoddais adroddiad o sylwedd yn amlinellu'r manylion ffeithiol: methodd â mantoli'r gyllideb (fel yr amlinellir uchod) ac nid oes ganddo Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd cymeradwy ar waith. Unwaith eto, nid oedd y Bwrdd Iechyd, a roddwyd mewn Mesurau Arbennig ym mis Hydref 2015, mewn sefyllfa i gyflwyno cynllun tair blynedd i'w gymeradwyo gan y Gweinidog. Yn hytrach, fel mewn blynyddoedd blaenorol, gweithredodd y Bwrdd Iechyd o dan drefniadau cynllunio blynyddol, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

29 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud gwaith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd;
- adolygu ymagwedd y Bwrdd Iechyd at gynllunio strategol;
- archwilio'r trefniadau sydd ar waith i reoli cyllid, gweithlu, asedau a phrosesau caffael y Bwrdd Iechyd;
- gwaith penodol ar wasanaethau Gofal Sylfaenol a gwaith partneriaeth rhanbarthol; ac
- asesu'r defnydd o ymarferion paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).

30 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u hamlinellu isod.

## Er bod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau llywodraethu a rheoli, mae'n dal i'w chael hi'n anodd datblygu cynlluniau tymor canolig sy'n gynaliadwy yn ariannol a gwella meysydd perfformiad â blaenoriaeth

31 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, y ffordd mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cyflawni eu busnes ac i ba raddau mae strwythurau sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Edrychais hefyd ar y wybodaeth mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ei derbyn i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro cyflawniad amcanion sefydliadol. Deuthum i'r casgliadau canlynol.

32 **Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da i gefnogi effeithiolrwydd y bwrdd a'i bwyllgorau, ac mae'n dangos arwyddion diweddar o drefniadau craffu cryfach, ond mae angen iddo ddatblygu ffocws cryf ar flaenoriaethau allweddol, ond llai ohonynt.** Daeth fy ngwaith o hyd i drefniadau llywodraethu gweithredol da ac mae gwaith craffu'r pwyllgor wedi bod yn dda ac yn parhau i gryfhau. Mae'r Bwrdd wedi creu darlun cliriach o'r cyfeiriad strategol hefyd. Fodd bynnag, tan yn ddiweddar, mae ansawdd yr her ar lefel bwrdd wedi bod yn amrywiol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu pob math o heriau a risgiau sylweddol, ond mae angen iddo ganolbwyntio ar yr elfennau allweddol a fyddai'n arwain at y gwelliant gorau mewn perfformiad. Mae'r tîm gweithredol yn cydnabod hyn ac yn gweithio gyda'r Bwrdd ehangach.

33 **Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i ddatblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd a phrosesau rheoli risg ategol; erbyn hyn, mae'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan fframwaith sicrwydd deddfwriaethol cynhwysfawr.** Fel rhan o ddatblygiad fframwaith sicrwydd y bwrdd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cysylltu ei amcanion presennol a'i sicrwydd gofynnol gan ddefnyddio map sicrwydd y bwrdd, er bod hyn wedi cymryd tipyn o amser. I ategu hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu fframwaith sicrwydd deddfwriaethol cynhwysfawr a fydd yn helpu i ddarparu sicrwydd mewn meysydd statudol allweddol. Ar y cyfan, mae trefniadau rheoli risg strategol y Bwrdd yn addas i gefnogi gweithrediad y Bwrdd a'i bwyllgorau, ac mae'n parhau i fireinio'r trefniadau hyn trwy egluro'r archwaeth risg ac adolygu ei strategaeth rheoli risg ym mis Rhagfyr 2018.

34 **Er bod rheolaethau mewnol ffurfiol ar waith, mae angen atebolrwydd cryfach er mwyn darparu cynlluniau newid gwasanaeth, ariannol a pherfformiad o fewn isadrannau.** Daeth fy ngwaith i'r casgliad bod yna raglen waith â ffocws da ar gyfer Archwilio Mewnol, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol a'r tîm Dilysu Ôl-dalu. Ystyriais hefyd y rhaglen archwilio clinigol, gan ddod i'r casgliad bod angen cryfhau gwaith cynllunio ac adrodd archwilio clinigol. Mae Rheolau Sefydlog, y Cynllun Cadw a Dirprwyo a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu yn unol â gofynion cenedlaethol a lleol. Mae trefniadau ar gyfer datganiadau o fuddiant a rhoddion a lletygarwch yn gwella hefyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull rhagweithiol i baratoi ac ymateb i ofynion y Rheoliad

Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ac i fynd i'r afael ag argymhellion diweddar Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu ansawdd, gan gynnwys uwchgyfeirio risgiau a materion yn well, ac mae cyflwyniad ehangach y dangosfwrdd ansawdd niwed yn helpu i wella a lleihau cyfraddau haint. Mae trefniadau ymateb i gwynion a phrosesau 'Gweithio i Wella' yn gwella'n araf, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau prydlondeb ymatebion ac i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a'u cymhwyso ar draws safleoedd a gwasanaethau gweithredol. O ran prosesau rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd, deuthum i'r casgliad er bod fframwaith perfformiad y Bwrdd Iechyd yn glir, yn rhesymegol ac yn ffurfiol, nad yw wedi arwain at y gwelliannau gofynnol mewn perfformiad. Deuthum i'r casgliad bod angen cryfhau atebolrwydd a chanolbwyntio mwy ar amseroldeb ac effaith camau adfer perfformiad gwael. Rwy'n cytuno hefyd ag asesiad y Bwrdd bod fformatau adroddiadau perfformiad yn ei gwneud hi'n anodd canolbwyntio ar y blaenoriaethau, ac rwy'n cydnabod ei fod yn gweithio i wella hyn.

35 **Mae bylchau yng ngallu rheolwyr wedi cyfyngu ar faint a chyflymder y gwelliant, yn enwedig mewn gofal eilaidd, ond mae newidiadau i rolau gweithredol a llinellau atebolrwydd yn rhannu cyfrifoldebau yn well ar draws y tîm gweithredol.** Er nad oes newid sylweddol wedi bod i'r strwythur gweithredol, mae llinellau atebolrwydd gweithredol diwygiedig yn rhannu cyfrifoldebau yn well ymhlith y Cyfarwyddwyr Gweithredol. Yng ngwaith y blynyddoedd blaenorol, nodais bryderon ynghylch capasiti gwasanaethau a'r gallu i sicrhau gwelliannau a newid gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd, gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, yn cryfhau gallu rheolwyr yn ei Is-adran Gofal Eilaidd, gyda thriwriaeth glinigol, nyrsio a rheoli wedi'i chyflwyno i ganolbwyntio ar ofal brys ac argyfwng. Dylai'r trefniadau hyn helpu i gryfhau ymgysylltu clinigol, sy'n dal i fod yn her, a darparu capasiti a gallu i sbarduno rheoli a gwella gwasanaethau.

36 **Mae gan y Bwrdd Iechyd broses ar gyfer olrhain argymhellion Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol ac adrodd ar gamau gweithredu a chynnydd i'r Pwyllgor Archwilio.** Mae system fonitro'r Bwrdd Iechyd yn galluogi'r cynnydd yn erbyn dyddiadau terfyn targed i gael ei adrodd, gan alluogi'r Pwyllgor Archwilio i herio uwch reolwyr lle nad yw'r cynnydd yn ddigonol. Mae fy adolygiad asesu strwythuredig eleni yn nodi amryw o feysydd lle mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd yn erbyn fy argymhelliad blaenorol. Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud cyn i'r camau hyn gael eu cwblhau yn llawn. Mae'r meysydd hynny sydd heb eu cwblhau a lle mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i wneud cynnydd yn cynnwys:

- cryfhau'r dulliau o wneud arbedion ariannol a sicrhau effeithlonrwydd;
- gwella'r broses o gynllunio ac adrodd archwiliadau clinigol;
- gwella capasiti a gallu rheoli newid;
- cryfhau dulliau recriwtio; a
- chryfhau dulliau o gymhwyso gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau a chwynion.

## Er bod trefniadau cynllunio strategol yn datblygu, nid ydynt wedi arwain at Gynllun Tymor Canolig Integredig y gellir ei gymeradwyo ac nid yw dull y Bwrdd Iechyd o fonitro darpariaeth ei gynlluniau presennol wedi bod yn ddigon cryf

37 Archwiliodd fy ngwaith sut mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â phartneriaid ac yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad. Asesais hefyd pa mor dda mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio sut y bydd yn cyflawni ei amcanion, a yw'r cynlluniau'n ddigon cydgysylltiedig a sut mae cynnydd o ran darparu'r cynlluniau yn cael ei fonitro. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u hamlinellu isod.

38 **Mae dull ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu a llywio datblygiad y strategaeth, ond mae angen mwy o eglurder ynghylch siâp gwasanaethau**. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau â'i ddull rheolaidd o ymgysylltu â'r cyhoedd fel rhan o'i strategaeth ymgysylltu ar gyfer 2017-19 ac yn canolbwyntio ar wella hyder y cyhoedd, gan gynyddu cyfraniad y cyhoedd a chleifion. Mae wedi defnyddio hyn i lywio ei strategaeth ddeng mlynedd 'Byw'n Iach, Aros yn Iach'[1], a gymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2018. Mae'r strategaeth yn nodi tair prif raglen, sef Gwella Iechyd ac Anghydraddoldebau Iechyd, Gofal yn Nes at Adref a gofal ar gyfer anghenion iechyd mwy difrifol. Er bod y strategaeth yn darparu bwriad lefel uchel ar gyfer cyfeiriad gwasanaethau, nid yw'n darparu'r manylion am siâp y gwasanaethau y bydd eu hangen pan fydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu ei gynlluniau gweithredu.

39 **Deuthum i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull cynllunio, ond nid yw wedi llwyddo i gynhyrchu IMTP y gellir ei gymeradwyo hyd yma; ei uchelgais yw gwneud hyn ar gyfer IMTP 2019-22, er y bydd hyn yn her sylweddol i'r Bwrdd Iechyd.** Gydol 2017, roedd gan y Bwrdd Iechyd ddull cynllunio clir a chytunedig, ond ni arweiniodd at IMTP cymeradwy yn 2018. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio i gynllun gweithredu blynyddol, a pharatôdd gynllun tair blynedd hefyd. Er nad oes strategaeth glinigol gytunedig, mae'n gadarnhaol bod nifer y cynlluniau clinigol ar gyfer gwasanaethau unigol sydd mewn gwahanol gyfnodau datblygu ar gynnydd. Mae'n bwysig, fodd bynnag, bod mwy o eglurder yn cael ei ddarparu ynghylch y modelau gofal i'r dyfodol. Erbyn hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau paratoi ei IMTP ar gyfer 2019-22, er bod hyn yn debygol o gyflwyno her sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â'r sefyllfa ariannol.

40 **Nid yw trefniadau i fonitro darpariaeth y cynllun gweithredu blynyddol wedi sicrhau darpariaeth effeithiol.** Fel rhan o'm hadolygiad asesu strwythuredig, ystyriais lefel y craffu ar ddarpariaeth y Cynllun Gweithredu Blynyddol (AOP). Deuthum i'r casgliad bod trefniadau craffu ar waith ar lefel pwyllgor, ond mae goruchwyliaeth o'r AOP ar lefel bwrdd yn gyfyngedig, mae adroddiadau cynnydd yn aml yn hirwyntog ac ni arweiniodd gwaith craffu, cymorth a her mewn perthynas â swyddogion at well darpariaeth o gynlluniau. O'r 615 o gamau gweithredu yng

[1] 'Byw'n Iach, Aros yn Iach' www.bcugetinvolved.wales/lhsw

nghynllun gweithredu blynyddol 2017-18, dim ond ychydig dros hanner a gyflawnwyd ac roedd y perfformiad yn debyg ar gyfer Chwarter cyntaf 2018-19.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran rheoli ei weithlu, ei gyllid a'i asedau ffisegol, ac mae angen iddo ddatblygu dull mwy trawsnewidiol i wella perfformiad ac effeithlonrwydd y gwasanaeth

41 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei weithlu, ei arian a'i asedau ffisegol eraill i gefnogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Ystyriais hefyd y trefniadau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u hamlinellu isod.

42 **Er bod agweddau ar lywodraethu a rheolaeth ariannol yn gwella, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg diwedd blwyddyn sylweddol ac mae tipyn o waith i'w wneud i fantoli'r gyllideb.** Mae sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn her hirdymor sylweddol. Ar gyfer 2017-18, nododd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £38.8 miliwn yn erbyn y terfyn adnoddau refeniw a gyfrannodd at ddiffyg cronnus tair blynedd o £88.1 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2018. Ar gyfer 2018-19, mae'n rhagweld diffyg blynyddol o £35 miliwn.

43 Mae ein gwaith ar y cyfrifon blynyddol wedi nodi'n gyson bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol o ran rheolaeth ariannol a rheoli'r gyllideb sy'n sicrhau cofnodion cywir a rheoleidd-dra mewn perthynas â'i incwm a'i wariant. Fodd bynnag, beth bynnag yw digonolrwydd y rheolaethau hyn, ni all y Bwrdd Iechyd gynnwys ei wariant net yn ei ddyraniad. Mae ffactorau'n cynnwys twf yn y galw am wasanaethau, cost uchel lleoliadau arbenigol y tu allan i'r sir a methu â darparu rhai arbedion effeithlonrwydd arfaethedig. Mae'r tîm cyllid wedi parhau i gefnogi deiliaid cyllidebau, ac mae'r swyddogaeth newid sy'n cael ei datblygu yn mabwysiadu dulliau sy'n gwella i helpu i gryfhau trefniadau arbedion ariannol, ond mae angen canolbwyntio mwy ar gyflawni arbedion, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Nododd fy ngwaith drefniadau caffael gweithredol hefyd, ynghyd â'r potensial i fabwysiadu dull mwy strategol i ddefnyddio caffael i helpu i gyflawni amcanion llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac i sicrhau mwy o werth cyffredinol tymor hir.

44 **Daeth fy ngwaith i'r casgliad bod arweinyddiaeth weithredol newydd ac ymrwymiad i ddatblygu strategaeth y gweithlu erbyn diwedd 2018 yn creu cyfle i fynd i'r afael ag amryw o faterion heriol yn ymwneud â'r gweithlu.** Yn arbennig, mae materion yn ymwneud â swyddi gwag staff meddygol, nyrsio a gofal iechyd yn dal i beri pryder sylweddol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau â'i ddull recriwtio parhaus 'Hyfforddi, Gweithio, Byw'[2], ac mae wedi datblygu proses gadw

[2] Hyfforddi, Gweithio, Byw https://www.hyfforddigweithiobywgogledd.cymru/

newydd i leihau'r gyfradd trosiant staff. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd fodloni gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 ac, er ei fod wedi rhoi trefniadau ar waith, mae prinder staff nyrsio yn cyflwyno heriau parhaus. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull rhagweithiol i ddatblygu staff, ac mae llawer yn manteisio ar ei hyfforddiant ac mae ganddo amrywiaeth o raglenni hyfforddi arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn ogystal, mae amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu â staff ar waith sy'n dangos effaith gadarnhaol fel y dangoswyd yn yr arolwg diweddar o staff y GIG. Mae gan y Bwrdd Iechyd Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol newydd. Mae'r penodiad wedi arwain at fwy o eglurder ynghylch swyddogaeth a strwythur timau'r gweithlu a'u blaenoriaethau, ynghyd â'r nod o ddatblygu strategaeth y gweithlu i lywio IMTP 2019-22.

45 **Yng nghyd-destun sylfaen asedau ac ystadau etifeddol fawr a chyfalaf dewisol cyfyngedig, mae'r gwaith o weinyddu a chynnal a chadw asedau o ddydd i ddydd yn cael ei reoli'n gymharol dda, ond mae angen dull mwy strategol**. Mae gan y Bwrdd Iechyd sylfaen asedau ac ystadau etifeddol fawr ac, er bod rhywfaint o hyn yn gymharol newydd neu wedi'i ailwampio yn ddiweddar, deuthum i'r casgliad bod rhannau o'r ystâd bresennol yn annhebygol o gefnogi modelau gwasanaeth newydd a hyrwyddo ffyrdd effeithlon o weithio, ac y bydd hi'n anodd eu dyrchafu i'r safonau amgylcheddol gofynnol. Dangosir hyn gan lefel yr ôl-groniad cynnal a chadw risg uchel mewn perthynas â'r ystâd, a amcangyfrifir fel £49 miliwn ar hyn o bryd. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw strategaeth rheoli asedau neu ystadau gyffredinol, er ei bod yn cael ei datblygu. Yn absenoldeb strategaeth, mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio trefniadau rheoli a blaenoriaethu asedau i gefnogi dulliau rhagweithiol ac adweithiol o reoli asedau gweithredol.

46 **Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni yn erbyn targedau mynediad allweddol ac mae angen gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd gwasanaethau.** Er bod rhai metrigau perfformiad wedi gwella, mae cyflawni targedau amseroedd aros yn dal i fod yn her sylweddol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni yn erbyn ei darged pedair awr ar gyfer adrannau brys, a chofnododd ddirywiad sylweddol dros yr haf. Mae cleifion allanol dilynol yn peri pryder i'r Bwrdd Iechyd. Mae fy ngwaith eleni wedi ystyried trefniadau effeithlonrwydd a chynhyrchiant y Bwrdd Iechyd hefyd. Nododd y gwaith hwn fod y Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan mewn ymarferion meincnodi a chlybiau i nodi meysydd lle mae anghydraddoldebau, ond mae angen iddo wella ei ddull o sicrhau gwelliannau mewn effeithlonrwydd a chynhyrchiant.

47 **Mae yna ddull strategol da yn y gwasanaeth gwybodeg, ond bydd angen buddsoddiad â ffocws a goruchwyliaeth gryfach ar effaith risgiau system genedlaethol ar y Bwrdd Iechyd**. Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen amlinellol strategol pum mlynedd ar gyfer gwybodeg sydd wrthi'n cael ei hailddrafftio a'i hailflaenoriaethu yn unol ag argaeledd cyllideb a blaenoriaethau cyffredinol y Bwrdd Iechyd. Cafodd adnoddau gwybodeg cyffredinol eu cynyddu yn 2017-18 ac mae'r ystafelloedd gweinyddion newydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty

Glan Clwyd yn fuddsoddiad cadarnhaol. Fodd bynnag, mae sawl risg o hyd yn ymwneud â storio cofnodion meddygol ac oedi o ran cyflwyno systemau yn genedlaethol.

## Mae fy rhaglen waith ehangach yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn ymateb i risgiau a chyfleoedd, ond ei fod yn dal i wynebu sawl her

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd rhesymol o ran darparu ei gynlluniau a ddatblygwyd yn ddiweddar ar gyfer gofal sylfaenol, ond mae llawer o agweddau ar berfformiad yn waeth na'r cyfartaledd ac mae heriau gweithlu ac ariannol sylweddol yn dal i fodoli

48 Deuthum i'r casgliad bod gan y Bwrdd Iechyd fframwaith cynllunio ar gyfer gofal sylfaenol, ond nad oedd ganddo gynllun cyflenwi manwl a bod ei allu i gefnogi gwaith clwstwr yn gyfyngedig a bod y gwaith yn dal i fod yn ei ddyddiau cynnar. Mae'n datblygu ei raglen Gofal yn Nes at Adref sy'n cyfateb i'r cynllun cenedlaethol a gall y Bwrdd Iechyd ddangos rhai enghreifftiau penodol o symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol, er bod sawl ffactor yn rhwystro newid ar raddfa fawr. Cydnabyddir bod heriau yn ymwneud â'r gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd meddygfeydd teulu a bod y Bwrdd Iechyd yn cael ei gyfyngu gan yr angen i reoli sawl meddygfa yn uniongyrchol. Mae'n ddyddiau cynnar ar y Bwrdd Iechyd o safbwynt cyflwyno timau gofal sylfaenol aml-broffesiynol fel rhan o'i gynlluniau i ddatblygu gofal sylfaenol ac mewn ymateb i heriau a achosir gan brinder meddygon teulu a chynnydd ym maint rhestri. Fodd bynnag, mae yna rwystrau i gynnydd pellach, gan gynnwys prinder gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn staff meddygol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod yr angen i gryfhau arweinyddiaeth gofal sylfaenol ac wedi mynd ati'n ddiweddar i recriwtio Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

### Mae fy nghanfyddiadau mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Integredig yn dangos, er bod y Gronfa yn cael rhai effeithiau cadarnhaol, bod amryw o heriau hefyd y mae angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol eu rheoli

49 Rwyf wedi cwblhau'r gwaith maes ar gyfer fy adolygiad traws-sector o'r Gronfa Gofal Integredig. Rwy'n bwriadu paratoi adroddiad cryno cenedlaethol yn gynnar yn 2019 yn amlinellu fy nghanfyddiadau Cymru gyfan. Mae fy nhîm archwilio eisoes wedi cyflwyno canfyddiadau lleol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Dyma'r negeseuon allweddol ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru:

- Mae'r Gronfa Gofal Integredig (y Gronfa) wedi cael effaith gadarnhaol o ran uno sefydliadau ar draws y Gogledd, er nad yw hi'n glir a fyddai gwaith partneriaeth yn parhau pe bai'r gronfa'n cael ei dileu, a nododd amryw o aelodau y byddai'n well ganddynt weithio ar lefel isranbarthol.

- Oherwydd natur flynyddol y Gronfa, mae'r rhanbarth yn cydnabod nad yw bob amser wedi defnyddio'r Gronfa yn strategol i ddatblygu gwasanaethau yn seiliedig ar angen, gyda lle i gryfhau agweddau ar y gwaith o reoli prosiectau a gefnogir gan y Gronfa.
- Mae penderfyniadau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gronfa wedi'u dirprwyo'n bennaf i is-grwpiau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ond mae angen gwella lefel dealltwriaeth sefydliadau partner o waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i is-grwpiau, gan gynnwys sut mae'r Gronfa'n cael ei defnyddio a'i heffaith.
- Mae yna gytundeb cyffredinol bod y Gronfa yn cefnogi'r prosiectau iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaethau ond, yr un fath â byrddau partneriaeth rhanbarthol eraill ledled Cymru, ychydig iawn o brosiectau sy'n cael eu prif ffrydio i wasanaethau craidd. Mae rhanbarth y Gogledd yn ceisio dangos canlyniadau yn gliriach, ond mae hyn yn cyflwyno her barhaus.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau

50 Ymarfer paru data bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau trwy baru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a all fod yn dwyllodrus a gwallus. Mae'n adnodd hynod effeithiol i ganfod ac atal twyll a gordaliadau ac er mwyn helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.

51 Ym mis Ionawr 2017, derbyniodd y Bwrdd Iechyd 896 o ganlyniadau paru data risg uchel o ymarfer paru data 2016. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran eu hadolygu ac, er na nodwyd unrhyw dwyll, helpodd yr adolygiad o'r parau i ddarparu sicrwydd bod ei drefniadau gwrth-dwyll yn gweithio'n effeithiol. Ym mis Hydref 2018, cyflwynodd cyrff a oedd yn cymryd rhan ddata ar gyfer yr ymarfer paru data nesaf. Bydd canlyniadau'r ymarfer hwn ar gael yn gynnar yn 2019.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

### Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2018.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mai 2018 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2018 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol | Rhagfyr 2018 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol – Cronfeydd Elusennol | Ionawr 2018 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2018 | Rhagfyr 2018 |
| Gofal Sylfaenol | Tachwedd 2018 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2018 | Ebrill 2018 |

### Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo

Mae amryw o archwiliadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiad cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adroddiad dilynol ar godio clinigol | Mawrth 2019 |
| Adroddiad dilynol ar Wasanaethau Orthopedig | Hydref 2019 |
| Adroddiad dilynol ar theatrau llawdriniaethau | Mai 2019 |
| Adolygiad o systemau a seilwaith TG etifeddol | Mehefin 2019 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2018 ffi archwilio arfaethedig o £457,953 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad. Byddaf yn parhau i adolygu hyn ac yn diweddaru'r Bwrdd Iechyd os bydd y sefyllfa hon yn newid.

# Appendix 3

## Risgiau archwilio ariannol sylweddol

### Arddangosyn 4: risgiau archwilio sylweddol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2018 y risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2018. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi’r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso’r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. | Cwblheais y profion archwilio â ffocws ar y rhannau perthnasol o’r datganiadau ariannol. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth o duedd mewn dyfarniadau neu amcangyfrifon. |
| Mae yna risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll mewn cydnabyddiaeth refeniw, felly mae’n cael ei drin fel risg sylweddol [ISA 240.26-27]. | Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried cyflawnrwydd incwm amrywiol. | Cwblheais y gwaith archwilio ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll mewn cydnabyddiaeth refeniw. |
| Mae’n hynod debygol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol.<br>Dangosodd sefyllfa mis 10 ddiffyg o £34.735 miliwn ar gyfer y flwyddyn hyd yma, a rhagwelwyd diffyg diwedd blwyddyn o £36 miliwn.<br>Rwy’n debygol o roi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol, gan | Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ei brofion ar rannau o’r datganiadau ariannol a allai gynnwys tuedd o safbwynt yr adrodd. | Adolygais drefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd, materion ariannol sylweddol a rhannau o’r datganiadau ariannol a allai gynnwys cydbwysedd ariannol. Adroddodd y Bwrdd Iechyd orwariant yn erbyn dyraniad adnoddau o £38.8 miliwn a gorwariant cronnus dros y cyfnod tair blynedd 2015-15 tan 2017-18 o £88.1 miliwn. O ganlyniad, methodd y Bwrdd Iechyd â |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| esbonio'r methiant a'r amgylchiadau a arweiniodd at y methiant.<br>Mae'r pwysau ariannol sydd ar y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn cynyddu'r risg y gallai fod tuedd mewn dyfarniadau ac amcangyfrifon rheoli mewn ymdrech i gyflawni unrhyw ddyletswyddau ariannol a bennwyd. | | chyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol gyntaf. |
| Mae yna risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau difrifol ar ei sefyllfa arian parod ar ddiwedd y flwyddyn.<br>Mae prinder arian parod yn debygol o gynyddu amseroedd talu credydwyr a chael effaith andwyol ar berfformiad Polisi Talu'r Sector Cyhoeddus (PSPP). | Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio perfformiad PSPP, gan ystyried y pwysau arian parod ar y Bwrdd Iechyd. | Cwblheais y profion archwilio, gan ddod i'r casgliad bod ei berfformiad wedi'i nodi'n gywir ym mhob ffordd berthnasol. |
| Rwyf wedi nodi bod amryw o ddatgeliadau yn berthnasol eu natur. Mae'r rhain yn cynnwys datgelu Partïon Perthnasol a'r nodyn Cydnabyddiaeth Ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn dylunio profion manwl i gael y sicrwydd gofynnol bod datgeliadau y nodir eu bod yn berthnasol mewn natur yn gyflawn, yn gywir ac yn unol â gofynion y Llawlyfr Cyfrifon a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. | Cwblheais y profion archwilio â ffocws ar y datgeliadau yr ystyrir eu bod yn berthnasol eu natur. Deuthum i'r casgliad bod y datgeliadau yn gyflawn, yn gywir ac yn unol â gofynion y Llawlyfr Cyfrifon a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru